

Fforwm Landlordiaid Casnewydd – 14 Rhagfyr 2020

Rhentu Doeth Cymru - cwestiynau ac atebion


1. A ellir cael opsiwn i ddewis Cymraeg neu Saesneg ar y wefan yn hytrach na bod y ddau yn ymddangos?

Mae fersiwn Saesneg y wefan i'w gweld yma: <https://www.rentsmart.gov.wales/en/home/>

Mae fersiwn Gymraeg y wefan i'w gweld yma:

<https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/home/>

Os ydych ar y fersiwn Saesneg o'r wefan, gallwch glicio ar y botwm "Cymraeg" ar ochr dde uchaf y dudalen i newid i'r fersiwn Gymraeg, ac fel arall.



2. Pam mae dau ffi ar gyfer cofrestru ac adnewyddu?

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 - y fframwaith cyfreithiol y mae Rhentu Doeth Cymru yn gweithredu ynddo - yn datgan y gellir codi ffi am gofrestru, a pharhau i gofrestru ar ôl 5 mlynedd. Mae Rhentu Doeth Cymru yn wasanaeth hunangyllidol ond dielw. Mae incwm a gynhyrchir o ffioedd yn talu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth fel y caniateir gan y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwaith i brosesu ceisiadau, helpu a chefnogi cwsmeriaid, ac i sicrhau gwelliannau yn y sector. Cyflawnir hyn drwy sicrhau bod trwyddedeion yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded ac ymchwilir yn drylwyr i gwynion a gwybodaeth a dderbynnir. Wyddoch chi? Gallwch ddiwynnu'r costau hyn wrth gyfrifo eich elw trethadwy ar y ffioedd yr ydych wedi'u talu, gan ei fod yn gynllun gorfodol i bob landlord sydd ag eiddo yng Nghymru. Mae'r ffioedd a godir gan Rhentu Doeth Cymru ar gyfer cofrestru ac adnewyddu yn cyhharu'n ffafriol â chynlluniau tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

3. Pam mae'r drwydded bob 5 mlynedd?

Nodir hyn yn Neddf Tai (Cymru) 2014, y fframwaith cyfreithiol y mae Rhentu Doeth Cymru yn gweithredu ynddo. Mae adran 26(1) yn nodi bod trwyddedau'n dod i ben ar ôl 5 mlynedd.

4. Pam mae ffi adnewyddu am rywbeth sy'n awtomataidd?

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 - y fframwaith cyfreithiol y mae Rhentu Doeth Cymru yn gweithredu ynddo - yn datgan y gellir codi ffi am barhau i gofrestru ar ôl 5 mlynedd. Mae Rhentu Doeth Cymru yn wasanaeth hunangyllidol ond dielw. Mae incwm a gynhyrchir o ffioedd yn talu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth fel y caniateir gan y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwaith i brosesu ceisiadau, helpu a chefnogi cwsmeriaid, ac i sicrhau gwelliannau yn y sector. Cyflawnir hyn drwy sicrhau bod trwyddedeion yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded ac ymchwilir yn drylwyr i gwynion a gwybodaeth a dderbynnir. Wyddoch chi? Gallwch ddiwynnu'r costau hyn wrth gyfrifo eich elw trethadwy ar y ffioedd yr ydych wedi'u talu, gan ei fod yn gynllun gorfodol i bob landlord sydd ag eiddo yng Nghymru. Mae'r ffioedd

a godir gan Rhentu Doeth Cymru ar gyfer adnewyddu yn cymharu'n ffafriol â chynlluniau tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.